# Geirfa: monitro a gwerthuso

Sefydliad Cymunedol Cymru

**Allbynnau:** dyma'r gwasanaethau, y gweithgareddau a'r cynnyrch rydych chi'n eu darparu i lwyddo i gyrraedd eich amcanion. Mae allbynnau'n codi o'ch amcanion. Gallai eich amcan fod yn 'darparu cefnogaeth i gleientiaid', gallai allbynnau gynnwys 'sesiynau cymorth mewn grŵp' a 'thaflenni'.

**Amcanion:** y camau ymarferol y bydd sefydliad yn eu cymryd i wireddu ei amcanion. Yn rhy aml, mae o leiaf un o'r elfennau hyn yn cael eu gadael allan! Dylai'r Prosiect gynhyrchu o leiaf un Canlyniad (neu allbwn) ar gyfer pob amcan (neu, fel arall, sut wyddoch chi y byddwch yn ei gyrraedd?).

**Ansawdd:** Y graddau y mae gwasanaeth neu gynnyrch yn cyfarfod â disgwyliadau rhanddeiliaid. Mae ansawdd yn golygu rhagoriaeth mewn darparu gwasanaeth ac o ran sut y mae'r sefydliad yn cael ei redeg.

**Atebolrwydd:** broses o ddarparu gwybodaeth i randdeiliaid sy'n eu gwneud yn hyderus ynghylch sut mae'r sefydliad yn cael ei reoli a sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Buddiolwyr:** y grŵp o bobl sy'n cael eu henwi yn amcanion y sefydliad fel y defnyddwyr, cleientiaid neu aelodau a fydd yn elwa o weithgaredd y sefydliad.

**Canlyniadau:** mae hyn yn cyfeirio at y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'ch prosiect. Gall canlyniadau ddigwydd ar sawl lefel – mae'r rhan fwyaf o'r gwerthuso ynghylch y canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth / cleientiaid /buddiolwyr.

**Dangosyddion perfformiad:** arwyddion i ddangos fod eich prosiect yn gwneud cynnydd i gyrraedd eich allbynnau a'ch canlyniadau. Gall dangosyddion perfformiad fod yn feintiol neu'n ansoddol. Maen nhw'n eich helpu i osod targedau i'w cyrraedd. Bydd y rhain yn ei gwneud yn glir i ariannydd beth fyddwch chi'n ei wneud i gael eich prosiect i lwyddo ac ar beth y byddwch chi'n adrodd. Byddwn yn defnyddio eich dangosyddion perfformiad i fonitro eich cynnydd a llwyddiant eich prosiect.

**Data ansoddol:** mae data ansoddol yn gallu bod yn hynod o amrywiol. Mae'n cynnwys bron iawn pob gwybodaeth y gellir ei gofnodi nad yw'n rhifol.

**Datganiad cenhadaeth:** datganiad byr o bwrpas y sefydliad, sy'n cael ei alw weithiau'n nod cyffredinol.

**Dulliau ansoddol:** dulliau o gasglu data sy'n golygu disgrifio ystyr, yn hytrach na thynnu casgliadau ystadegol. Yr hyn y mae dulliau ansoddol (e.e. astudiaethau achos a chyfweliadau) yn ei golli o ran dibynadwyedd, maen nhw'n ennill o ran dilysrwydd. Maen nhw'n rhoi mwy o ddyfnder a disgrifiad.

**Effaith**: effeithiau eang, tymor hir gwaith y prosiect.

**Gwaelodlin**: y pwynt lle mae rhywbeth yn cael ei gofnodi gyda'r bwriad penodol o'i ddefnyddio i gymharu gyda rhywbeth yn y dyfodol, fel arfer i ddangos y llwyddwyd i gyflawni newid.

**Gwella Parhaus:** ceisio gwella a chwilio'n barhaus am ffyrdd o wneud beth ydych chi'n ei wneud yn well. Mae'n golygu gwneud eich gorau bob tro. Nid yw'n ddigon i sefydliad gael 'prosiect' ynghylch ansawdd. I'r gwaith fod yn effeithiol, dylai sefydliadau ddal ati ynghylch ansawdd, o ran y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu ac o ran y ffordd y mae'n nhw'n cael eu rheoli a'u llywodraethu.

**Gwerthuso:** asesu cynnydd yn erbyn yr hyn a ddatganwyd, nodau, amcanion, allbynnau a chanlyniadau'r prosiect. Yn aml, mae gweithgareddau gwerthuso'n cael eu gadael tan ddiwedd Prosiect ond, mewn gwirionedd, fe ddylen nhw fod yn cael eu cynllunio o'r cychwyn cyntaf.

**Gwerthoedd:** datganiadau yn egluro'r ymddygiad a'r ethos sy'n bwysig i sefydliad e.e. ymddiriedaeth, bod yn agored, cydraddoldeb.

**Meintiol:** gellir ei gyfrif neu mae rhif ynghlwm wrtho.

**Monitro:** broses o gasglu a chofnodi gwybodaeth yn rheolaidd, mae'n cadw cyfrif o'r cynnydd ac o'r gwaith a wnaed yn erbyn y nodau a'r amcanion a gytunwyd ar gyfer eich prosiect. Byddwch yn monitro cynnydd drwy gasglu gwybodaeth ynghylch eich dangosyddion perfformiad a'ch targedau.

**Nodau:** y mae sefydliad yn gobeithio eu cyflawni, neu'r gwahaniaethau y mae eisiau eu gwneud.

**Partneriaid:** unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio gyda chi i lwyddo i gyrraedd nodau eich gwaith / prosiect. Mae partneriaid yn rhanddeiliaid.

**Partneriaeth:** perthynas rhwng dau neu fwy o bartion yn ychwanegu gwerth ar gyfer buddiolwyr.

**Rhanddeiliaid:** Rhanddeiliad yw unrhyw berson neu sefydliad sydd â diddordeb yng nghynnydd neu ganlyniadau eich gwaith, fel arfer oherwydd eu bod un ai'n rhan ohono neu'n cael eu heffeithio gan yr hyn y mae'n ei ddarparu. Mae rhanddeiliad yn dylanwadu ar gynnyrch, gwasanaethau a rhaglenni gwaith. Mae rhanddeiliaid yn gallu cael dylanwad negyddol yn ogystal â phositif yn y gwaith.

**Rheoli Ansawdd Hollgynhwysfawr:** system â strwythur ar gyfer bodloni defnyddwyr gwasanaeth a chyflenwyr drwy wneud rheoli ansawdd yn fater strategol a thrwy annog diwylliant o ddysgu a gwella. Mae'n golygu sicrhau rhagoriaeth mewn popeth rydych chi'n ei wneud ac ym mhopeth rydych chi yn ei gylch. Nid gweithredu fframwaith neu weithio tuag at safon yn unig yw ansawdd, dylai fod yn amlwg ym mhopeth mae sefydliad yn ei wneud ac yn y ffordd y mae'n gwneud hynny.

**Targedau:** maen nhw'n disgrifio beth mae eich sefydliad yn obeithio ei gyflawni o ran ei allbynnau a'i ganlyniadau. Mae Alan Lawrie'n disgrifio targedau fel '... ymrwymiadau neu addewidion polisi i wella perfformiad ar lefel benodol.' (1995).